Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cystennin

**Yr Hen Brif Ffordd**
**Mochdre**
**Conwy**
**LL28 5AU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Mehefin 2011**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd ddwyieithog yw Ysgol Cystennin yn gwasanaethu pentref Mochdre ger Bae Colwyn. Ar hyn o bryd mae chwe deg saith o ddisgyblion ar y gofrestr wedi eu trefnu yn dri dosbarth oedran cymysg. Daw'r cyfan o gartrefi Saesneg ei hiaith. Nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r adeiladau yn cynnwys tair ystafell ddosbarth, nifer o ardaloedd adnoddau a neuadd aml bwrpas o faint da. Mae gan yr ysgol diroedd helaeth, sy'n cynnwys maes chwarae gwastad.

Disgrifir yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol fel ardal gymdeithasol ac economaidd ddifreintiedig. Mae pum deg pump y cant o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau bwyd am ddim, sydd yn llawer uwch na chyfartaleddau lleol a'r rhai cenedlaethol. Mae cynnydd o 20 y cant ers yr arolwg diwethaf.

Dengys yr asesiadau gwaelodlin yn yr ysgol fabanod bod cyrhaeddiad wrth dderbyn y plant yn arwyddocaol is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Ar hyn o bryd, dynodir 45 y cant o ddisgyblion fel rhai a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol sy'n sylweddol uwch na chanrannau'r awdurdod lleol a chenedlaethol. Mae tri disgybl â datganiad o anghenion dysgu ychwanegol.

Heblaw am y pennaeth, apwyntiwyd pob aelod cyfredol arall o staff ers i'r ysgol gael ei harolygu ym mis Mehefin 2005.

Yn 2010 – 2011, roedd y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cystennin yn £3659 sy'n cymharu ag uchafswm o £9816 ac isafswm o £2909 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghonwy. Gan y sir mae 33ain gyllideb uchaf fesul disgybl o 61 o ysgolion cynradd yng Nghonwy.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau mewn llythrennedd, rhifedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda;
- perfformiad yn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ystod tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, wedi bod yn gyson well na chanlyniadau'r awdurdod lleol a'r rhai cenedlaethol;
- profiadau dysgu dychmygus yn llwyddo i ddenu diddordeb yr ystod lawn o ddisgyblion; a bod
- yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinwyr a rheolwyr yn adnabod eu hysgol yn dda a bod ganddynt brosesau hunan-arfarnu grymus;
- cynllunio strategol a phrosesau ar gyfer gwneud penderfynu yn effeithiol; a bod
- cydweithio partneriaeth agos gydag ysgolion eraill y clwstwr eraill yn cynyddu gallu'r ysgol ar gyfer gwelliant parhaus.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 wella safonau llawysgrifen ymhob dosbarth;

A2 ddarparu mwy o gyfleodd i rieni gyfrannu tuag at brosesau hunan-arfarnu'r ysgol

A3 sefydlu prosesau grymusach gyda'r ysgol babanod sy'n ei bwydo ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon; a

A4 gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn galw i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn hyderus. Mae medrau datrys problemau a medrau meddwl y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd safonau da mewn llythrennedd, rhifedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae disgyblion o bob oedran yn gwrando'n ofalus yn ystod y gwersi ac yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn glir yn ystod trafodaethau grŵp. Mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod o destunau yn rhugl ac yn fanwl gywir ac yn cynhyrchu darnau o waith ysgrifenedig sydd yn aml wedi eu trefnu'n dda, yn eglur ac yn ddiddorol. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae bron pob un wedi datblygu yn dda'r medrau ehangach a'r cymhwysiad angenrheidiol i'w harfogi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n daclus ac mae hyn yn amharu ar gyflwyniad a darllenadwyaeth eu gwaith.

Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad o'r iaith Gymraeg. Mae bron pob un yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarchion a chyfarwyddiadau gyda'r mwyaf hyderus yn mynegi eu hanghenion yn eglur trwy ymadroddion syml a ddysgwyd. Fel mae disgyblion yn symud ymlaen trwy'r cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf yn siarad, darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg gyda manwl gywirdeb a rhuglder priodol.

Dengys asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd y cyfnod allweddol 1 bod disgyblion yn cwmpasu'r holl ystod gallu.

Ac eithrio 2010, mae perfformiad disgyblion yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson well na chanlyniadau'r awdurdod a chenedlaethol. Mae'r canrannau sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd, sef y lefel disgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc craidd, hefyd yn gyffredinol wedi bod yn uwch na ffigyrau lleol a chenedlaethol. Pan y'u cymharir gydag ysgolion eraill gyda chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd canlyniadau rhwng 2007-2009 ymysg y 25 y cant uchaf bron ymhob pwnc. Maent hefyd wedi bod yn uwch nag ysgolion eraill sy'n wynebu'r un heriau.

Yn 2010, roedd perfformiad diwedd cyfnod allweddol ymhob un o'r tri phwnc yn arwyddocaol is na ffigyrau lleol a chenedlaethol a hefyd yn is na'r rhan fwyaf o ysgolion eraill sy'n wynebu'r un heriau. Priodola'r ysgol y canlyniadau hyn i'r canrannau uwch na'r arfer o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol oedd yn y garfan.

Roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 5 un ai mewn Saesneg neu wyddoniaeth yn 2010 ychydig yn uwch na'r rhai mewn ysgolion eraill sy'n wynebu'r un heriau. Ni chafodd yr un disgybl lefel 5 mewn mathemateg.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn 2010 rhwng canrannau’r merched a’r bechgyn gyrhaeddodd y lefelau disgwyliedig yn y pynciau craidd. Mae bron pob un disgybl, yn cynnwys y rhai sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim a’r is eu gallu, yn gwneud cynnydd da neu well trwy gydol y cyfnod allweddol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn wynebu profiadau a heriau newydd yn hyderus ac maent yn awyddus i ymholi a gofyn cwestiynau. Mae ymrwymiad a chymhelliant y rhan fwyaf yn fawr a dangosant falchder a hyder yn eu gwaith. Medda llawer y medrau angenrheidiol i wella eu dysgu eu hunain, i weithio gydag eraill a datrys problemau.

Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut y gallant fod yn iach, naill ai trwy’r hyn maent yn ei fwyta neu’r gweithgaredd corfforol a wnânt. Mae’r Grŵp Gweithredu Maeth yr ysgol wedi ei sefydlu’n dda ac mae ynghlwm a sefydlu rhestr o fwydydd iach. Mae pob disgybl yn datgan eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd o gamdriniaeth gorfforol a geiriol. Mae’r rhan fwyaf yn cyflawni yn dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ystyriol ac yn gwrtais ac maent yn cyd-berthnasu’n dda iawn a’i gilydd ac oedolion. Mae’r rhan fwyaf yn arddangos ymddygiad da yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae presenoldeb yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi bod yn gyson â chyfartaleddau’r awdurdod lleol a'r rhai cenedlaethol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon ar ddechrau’r diwrnod ysgol.

Fel yr aeddfedant, mae pob un o’r disgyblion yn barod iawn i dderbyn cyfrifoldebau a, thrwy'r cyngor yr ysgol, yr eco-bwyllgor a gweithgareddau eraill, yn chwarae rhan weithredol yn yr ysgol a’r gymuned. Mae disgyblion yn hyderus y caiff ei llais ei glywed a’u bod ganddynt ran weithredol effeithiol yn y broses o gynllunio gwelliannau yn yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae athrawon ac ymarferwyr yn cydweithio’n agos i gynllunio gweithgareddau hyblyg a dychmygus sy’n llwyddo i ennyn diddordeb yr ystod lawn o ddisgyblion. Mae profiadau ysgogol ac ar adegau sy’n arloesol, yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio gan weithgareddau perthnasol sy’n darparu parhad a dilyniant yn eu dysgu. Mae rhaglenni cefnogi effeithiol yn galluogi pob un o’r disgyblion i gymryd rhan lawn ymhob gweithgaredd.

Mae cynllunio manwl yn sicrhau bod pob disgybl yn caffael y medrau llythrennedd , cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu angenrheidiol iddynt i gael mynediad i’r cwricwlwm ehangach. Datblygir medrau datrys problemau a medrau meddwl yn systematig ar draws yr ysgol a gwnânt gyfraniad arwyddocaol i ansawdd dysgu’r disgyblion.

Mae cynllunio a darpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn drylwyr ac wedi ei haddasu'n dda ar gyfer oedran a gallu'r disgyblion. Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o hanes a diwylliant Cymru.

Gweithia'r ysgol y agos iawn gydag aelodau o'r gymuned ac mae'n cyfrannu'n rheolaidd i ddigwyddiadau lleol. Fodd bynnag, mae cysylltiadau gyda sefydliadau/ mentrau masnachol neu ddiwydiannol yn brin.

Mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy ac mae disgyblion yn chwarae rhan weithredol wrth arbed egni a lleihau gwastraff. Darperir nifer o gyfleoedd o ansawdd da ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r dimensiwn rhyngwladol a dinasyddiaeth byd eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd cyffredinol yr addysgu'n dda. Medda'r holl athrawon wybodaeth bynciol eang ac maent yn llwyddiannus wrth ymgymryd â mentrau newydd, fel asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl, a ddefnyddir ganddynt yn gyson i gefnogi dysgu. Defnyddir amrywiaeth o strategaethau yn effeithiol i gymell disgyblion ac i ymgorffori medrau allweddol mewn gwersi. Trwy ymyrraeth bwrpasol a chwestiynu medrus, caiff syniadau a meddwl disgyblion eu herio ac ansawdd dysgu ei wella. Mae'r holl athrawon ac ymarferwyr yn hybu ymddygiad da yn llwyddiannus a rhyngweithiant yn dda gyda disgyblion i gefnogi eu dysgu. Integreiddir Cymraeg achlysurol yn fwriadus i mewn i'r addysgu ymhob dosbarth. Sicrha athrawon y diwallir anghenion pob un disgybl beth bynnag fo'u rhyw, hil neu allu. Mae hyn yn nodwedd arbennig o gryf o'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu cefnogi'n dda iawn gan athrawon a staff cynorthwyol. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol trwy weithgareddau a gydweddir yn dda i'w gallu a'u cyfnod datblygiad, ni thelir digon o sylw i anghenion y rhai mwy abl a thalentog.

Mae systemau ar gyfer asesu cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn asesu eu cynnydd a chynnydd eu cyfoedion yn rheolaidd trwy fodelu arfer dda, cynnig cefnogaeth a thrwy asesiad cymheiriaid. Mae adborth llafar gan athrawon ac ymarferwyr yn effeithiol ac adeiladol. Mae systemau eglur, effeithiol ar gyfer olrhain a chynnal gwybodaeth am gynnydd disgyblion. Dadansoddir asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn fanwl ynghyd â chanlyniadau profion safonedig ac asesiadau parhaus athrawon er mwyn cynllunio'r camau nesaf mewn dysgu. Gweithredir strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn llwyddiannus trwy'r ysgol. Mae cymedroli asesiadau athrawon gyda'r ysgolion babanod sy'n bwydo'r ysgol yn ei ddyddiau cynnar o ddatblygiad.

Trwy gyfrwng adroddiadau blynyddol cynhwysfawr a chyfarfodydd rheolaidd gyda staff, caiff rhieni wybodaeth dda am gyrhaeddiad a thargedau eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n gwerthfawrogi cyfraniad pob unigolyn. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gael i gefnogi iechyd a lles disgyblion ac i hybu eu hymglymiad i'r ysgol a'r gymuned ehangach. Cyfranna'r trefniadau hyn, ynghyd ag ethos a gwerthoedd yr ysgol, yn arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol,

cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymdrechu i sicrhau y diwallir eu hanghenion personol.

Mae dulliau adnabod ac asesu disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn sensitif ac yn briodol i bob maes o'r cwricwlwm. Mae'r trefniadau trylwyr ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn galluogi bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da neu well mewn dysgu a chyrhaeddiad. Mae'r cymorth arbenigol ar gyfer grwpiau penodol sydd angen cyfarwyddyd a chyfleoedd i "ddal i fyny" yn benigamp. Caiff rhieni a gwarchodwyr wybodaeth lawn o'r hyn sy'n digwydd. Dilynir gweithdrefnau statudol yn dda a chynhelir adolygiadau fel bo'r angen.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Darpara'r ysgol amgylchfyd dysgu cynhwysol ble yr ymdrinnir â phob disgybl yn deg yn unol â'i pholisïau cydraddoldeb. Mae adnoddau addysgu a dysgu o ansawdd dda gyda chyflenwad digonol i sicrhau y dysgir y cwricwlwm yn effeithiol. Gweithia'r staff yn dda i ddatblygu ethos cadarnhaol ar gyfer dysgu. Maent yn annog pob disgybl i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.

Mae'r adeiladau o ansawdd da ac mae'r ystafelloedd dysgu yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae'r adeiladau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn cynnwys arddangosfeydd deniadol sy'n llawn gwybodaeth o waith a chyraeddiadau'r disgyblion. Defnyddir yr ardaloedd dysgu allanol yn dda gan bob dosbarth i gefnogi gwaith disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Gweithia'r uwch dîm rheoli'n yn agos iawn gyda'i gilydd i greu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol a rennir gan yr holl staff a llywodraethwyr. Cyfathrebir disgwyliadau uchel a chaiff hyn effaith dda ar safonau a lles ar draws yr ysgol. Cydweithia'r staff i feithrin ethos ysgol gyfan gadarnhaol ble teimla disgyblion eu bod yn werthfawr. Cyflawna'r staff eu rôl a'u dyletswyddau yn ddiwyd. Dadansoddir gwybodaeth a data'n drylwyr gan reolwyr a llywodraethwyr i'w galluogi i wneud penderfyniadau strategol cadarn.

Gweithredir rheoli perfformiad yn unol ag anghenion statudol ac mae'r trefniadau hyn yn cynnwys pob aelod o staff. Cynllunnir anghenion hyfforddi yn briodol i ddiwallu anghenion unigolion ynghyd â blaenoriaethau'r ysgol. Cysylltir y broses rheoli perfformiad yn agos gyda strategaethau gwella ysgol a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar y cynllun datblygu ysgol.

Ymgorfforir blaenoriaethau cenedlaethol a lleol i raglen waith yr ysgol gyda'r tîm arwain yn clustnodi amser ac adnoddau i sicrhau gweithredu effeithiol. Mae mabwysiadu strategaethau asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl wedi cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a dulliau addysgu.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol a'r materion sy'n effeithio arni. Trwy gyfrwng eu hymwneud rheolaidd a'r adolygiad o'r cynllun datblygu ysgol, maent yn ymwybodol iawn o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ysgol. Gweithreda'r llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol a heriant y pennaeth a'r staff i chwilio am welliannau pellach. Mae gweithdrefnau priodol ar gyfer ymateb i bryderon a chwynion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr a staff yn adnabod eu hysgol yn dda a defnyddiant y wybodaeth yn fwriadus i ddynodi agweddau i'w datblygu ac i osod targedau. Mae hunan-arfarnu yn nodwedd rymus, adlewyrchol a chynhyrchiol yn yr ysgol gydag athrawon yn ystyried y ddarpariaeth, ac yn cynllunio ffyrdd i wneud gwelliannau a diwallu anghenion newidiol yr ysgol.

Coledir ac archwilir amrediad eang o dystiolaeth yn ystod hunan-arfarnu gan eu defnyddio wedyn i ddynodi blaenoriaethau. Dadansoddir data perfformiad yn drylwyr ac fe eir i'r afael yn syth ac unrhyw dueddiadau a ymddengys. Defnyddia'r rheolwyr dystiolaeth o uniongyrchol ynghylch ansawdd yr addysgu a dysgu ac maent hefyd annog disgyblion a staff i rannu eu syniadau. Fodd bynnag, nid oes trefniadau clir i gynnwys barn rhieni yn y prosesau hunan-arfarnu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ymdrech ar y cyd gan staff a llywodraethwyr. Deillia'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau o ddeilliannau hunan-arfarnu ac fe'i mynegir yn nhermau cyrhaeddiad disgyblion a chynnydd. Mae'n cynnwys nifer hydrin o flaenoriaethau a dulliau gweithredu, yn nodi'r person cyfrifol ynghyd â therfynau amser. Costir blaenoriaethau'n ofalus a chynhwysir hefyd feini prawf llwyddiant priodol a thargedau.

Mae cymuned dysgu broffesiynol bellach wedi ei hen sefydlu o fewn yr ysgol sy'n galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi cychwyn ar gydweithio agosach gyda'r ysgol babanod sy'n ei bwydo, fodd bynnag, nid yw ar hyn o bryd wedi arwain at arferion gweithio cytûn. Nodwyd hyn fel blaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol cyfredol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i argymhellion yr adroddiad arolygu diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gweithio gyda rhieni, y gymuned leol , ysgolion lleol a sefydliadau addysgol yn gynhyrchiol iawn ac fe'i defnyddir yn effeithiol i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion. Datganodd bron pob rhiant farn gadarnhaol am yr ysgol yn yr holiaduron.

Cydweithia'r ysgol yn dda gyda'r ysgol uwchradd leol a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar fentrau datblygu cwricwlwm yr ysgol gynradd ei hunan. Mae gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau'r awdurdod lleol a chlwstwr o ysgolion lleol yn nodwedd sy'n datblygu gallu'r ysgol i adeiladu cynhwysedd ar gyfer gwelliant parhaus.

Ceisir yn ddyfal i greu cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach, yn enwedig gyda rhieni, ac fe gynigir cyfleoedd i rieni i fod ynghlwm â bywyd a gwaith yr ysgol. Rhoddir gwybodaeth i rieni yn ffurfiol ac yn anffurfiol am gynnydd disgyblion.

Mae'r cysylltiadau cadarnhaol gyda nifer o asiantaethau yn arwain at sefydlu systemau cefnogi a rhannu gwybodaeth effeithiol y gellir eu defnyddio'n rhwydd pan fo angen hynny.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r tîm arwain yr ysgol yn rheoli'r adnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn derbyn profiad ysgol sydd o ansawdd uchel.  Trwy ddefnydd effeithiol iawn o arbenigedd Cymhorthydd Dysgu Lefel Uwch, caiff staff amser i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol o gynllunio, paratoi ac asesu. Caiff y trefniant yma effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.  Lleolir staff cefnogi dysgu yn effeithiol i ddiwallu'r anghenion a ddynodwyd ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu arbennig.  Fodd bynnag, ni ddarperir cefnogaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Adolygir effaith adnoddau ar addysgu a dysgu yn rheolaidd ac fe gynllunnir ar gyfer anghenion pellach yn ofalus.  Mae trefniadau cyllidebu systematig a manwl gywir  ar gael ac fe gysylltir penderfyniadau cyllido yn dda gyda blaenoriaethau dysgu a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'r rhan fwyaf o'r 20 y cant o'r holiaduron a ddychwelwyd yn datgan lefel dda o foddhad gyda'r ysgol yn gyffredinol. Mae bron pob un o'r rhieni yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a bod eu plant wedi ymsefydlu'n dda ac yn hoffi'r ysgol. Mae bron pob un yn meddwl bod yr addysgu'n dda, a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da ac yn derbyn cymorth i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Teimla'r rhan fwyaf y cânt wybodaeth dda am gynnydd eu plant a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Datgan rhai nad ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd pob disgybl yr holiaduron ar gyfer disgyblion ac fe siaradodd aelodau o'r tîm arolygu gyda grŵp bychan ohonynt yn ystod yr arolwg. Creda bron pob un eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os ydynt yn poeni neu wedi cynhyrfu. Gwyddant beth i'w wneud ac i bwy i ofyn os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd a dwedant fod gwaith cartref yn ei helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Mae pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod yr ysgol yn ymdrin yn dda gydag unrhyw fwlio. Datganodd rhai bryder ynglŷn ag ymddygiad disgyblion eraill.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Colette Gribble | Arolygydd Tîm |
| Kerry Jones | Arolygydd Lleyg |
| Dorothy Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iwan Jones | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |